# Rural Office

# Pont Teithio Llesol Plascrug
Aberystwyth

Rural Office
Yr Egin Ffordd
y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3BB

| | |
|---|---|
| Cyfeirnod | 191 |
| Pwnc | Pont Teithio Llesol Plascrug |
| Teitl | Dogfen Ymgysylltu: Adolygiad Cymharol o'r Opsiynau ar gyfer y Bont Arfaethedig |




Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Ymgynghoriaeth
GWYNEDD
Consultancy
YGC



© Rural Office 2026

# Dylunio ar gyfer y Bont Orau Posibl
## Meini Prawf

Mae'r dudalen hon yn amlinellu'r dyluniad gorau posibl ar gyfer y bont, dyluniad sy'n ymgorffori'r holl ofynion a nodwyd ar gyfer cyflawni prosiect pont teithio llesol llwyddiannus yn y cam hwn.

Mae'r tri opsiwn ar gyfer y bont arfaethedig, a drafodir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon, yn cael eu gwerthuso'n unol â'r meini prawf hyn er mwyn nodi pa rai o'r gofynion sy'n cael eu bodloni'n llawn – gan greu cyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol, a pha rai nad ydynt yn cael eu bodloni – gan arwain at heriau ac effeithiau negyddol posibl.

### Hygyrchedd

1. Mae rampiau â graddiant o 1:20 yn sicrhau hygyrchedd i ystod eang o ddefnyddwyr.
2. Llwyfannau gorffwys gwastad bob 10 m ar y rhannau â ramp.
3. Yn gwella'r rhwydwaith Teithio Llesol presennol.
4. Mae canllawiau parhaus ar hyd y rampiau a'r grisiau yn gymorth i ddefnyddwyr o bob gallu.

### Yr Amgylchynau

1. Yn defnyddio tir sy'n eiddo i'r cyngor.
2. Yn cydymffurfio â gofynion Network Rail.
3. Yn darparu cyfle i ailgynllunio ac ailwampio maes parcio Pen Isaf Coedlan y Parc.
4. Bydd y gwaith adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol cael gwared ar gyn lleied â phosibl o'r llystyfiant presennol.

### Rhanddeiliaid

1. Cyn lleied o effaith â phosibl, a'r potensial i wella tiroedd yr Ysgol Gynradd.
2. Cyfle i ailwampio'r ardal o gwmpas mynedfa'r Ysgol Gynradd ar Rodfa Plascrug.
3. Cyn lleied o broblemau â phosibl o ran gallu edrych dros dir yr Ysgol Gynradd.
4. Cyn lleied o effaith â phosibl ar Feithrinfa Camau Bach; y potensial ar gyfer gwella'r maes parcio.
5. Cyn lleied o effaith â phosibl ar Glwb Rygbi Aberystwyth.

### Y Cynllun

1. Cynllun wedi'i ddatrys yn dda, heb unrhyw gyfyngiadau o ran gofod pen, sy'n sicrhau mynediad diogel i feicwyr.
2. Lled llawn o 4 m ar draws yr adeiladwaith yn sicrhau digonedd o le i bob defnyddiwr, gan annog dewisiadau teithio cynaliadwy.
3. Cynllun diogel ac ystyriol sy'n hyrwyddo symudiad greddfol.
4. Yn cydymffurfio â'r safonau radiws troi gofynnol ar gyfer beicwyr.
5. O gael ei ddylunio a'i roi ar waith mewn modd meddylgar, bydd hwn yn adeiladwaith sy'n integreiddio'n dda, ac iddo'r potensial i ddod yn dirnod lleol gwerthfawr.
6. Mae goleuadau wedi'u cynllunio'n dda yn sicrhau bod y bont yn ddiogel, yn groesawgar, ac yn hygyrch pan nad yw'r amodau'n olau iawn ac yn ystod y nos.
7. I sicrhau rhagor o ddiogelwch, mae camerâu cylch cyfyng dan ystyriaeth.

### Adeiladu


1. Cyn lleied â phosibl o ddargyfeiriadau i gyfleustodau yn ofynnol, gan leihau cymhlethu pethau a tharfu ar y gwasanaethau presennol.
2. Mynediad digonol i'w ddarparu ar gyfer y gwaith adeiladu, a fydd yn sicrhau digon o le i beiriannau, cyfarpar a deunyddiau.
3. Darparu a chynnal a chadw'r llwybr teithio llesol presennol yn ystod y gwaith adeiladu.

### Gweithredu, Cynnal a Chadw, a'r Gost

1. Digon o le ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.
2. Asesiad cytbwys o'r gost a'r risg er mwyn sicrhau'r canlyniad mwyaf costeffeithiol a chadarn o ran ei strategaeth.


© Rural Office 2026

# Opsiwn A
# Golygfa trem aderyn






© Rural Office 2026

# Opsiwn A
# Heriau ac Effeithiau Negyddol

Mae Opsiwn A yn disodli'r bont bresennol, gan wella'r llwybrau teithio llesol yn y lleoliad presennol trwy godi adeiladwaith newydd ac iddo ddec ehangach. Mae yna heriau adeiladu sylweddol i'r opsiwn hwn oherwydd y mynediad cyfyngedig a chymhlethdod y gwaith o adeiladu a chynnal pont deithio lesol fawr mewn safle cyfyngedig.

Mae'r dudalen hon yn amlinellu'r heriau allweddol a'r effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn.

- Hygyrchedd
- Yr Amgylchynau
- Rhanddeiliaid
- Y Cynllun
- Adeiladu
- Gweithredu, Cynnal a Chadw, a'r Gost




Allwedd ar gyfer Llwybrau Teithio Llesol:


- Cerdded a beicio
- Cerdded



© Rural Office 2026

# Opsiwn A
# Dadansoddiad

Mae'r dudalen hon yn darlunio golygfeydd o'r bont arfaethedig.







1. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o Boulevard Saint Brieuc.





2. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o Ben Isaf Coedlan y Parc.



© Rural Office 2026

# Opsiwn A
# Dadansoddiad

Mae'r dudalen hon yn darlunio golygfa o'r bont arfaethedig.







3. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o gylchfan Rhodfa Plascrug.



© Rural Office 2026

# Opsiwn A
# Meini Prawf

Mae'r dudalen hon yn asesu Opsiwn A yn ôl meini prawf y bont orau posibl i nodi pa ofynion sy'n cael eu bodloni'n llwyr – gan greu cyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol, a pha rai nad ydynt yn cael eu bodloni – gan arwain at heriau ac effeithiau negyddol posibl.

## Hygyrchedd

1. Mae ramp â graddiant o 1:15 yn fwy serth na'r graddiant o 1:20 a ffefrir.
2. Llwyfannau gorffwys gwastad bob 10 m ar y rhannau â ramp.
3. Yn cadw'r llwybr Teithio Llesol presennol, sydd eisoes yn gyfarwydd i'r gymuned leol.
4. Mae canllawiau parhaus ar hyd y rampiau a'r grisiau yn gymorth i ddefnyddwyr o bob gallu.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Mae hygyrchedd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn rhwng y maes parcio a'r bont yn gyfyngedig oherwydd y fynedfa gul ar hyd Boulevard Saint Brieuc.

## Yr Amgylchynau

1. Bydd angen newid y lesoedd gyda Meithrinfa Camau Bach a Chlwb Rygbi Aberystwyth.
2. Rhaid i waith adeiladu ger ffin Network Rail ganiatáu mynediad yn y dyfodol; gallai Network Rail wrthwynebu os bydd yna berygl i ddiogelwch neu fynediad.
3. Yn darparu cyfle i ailgynllunio ac ailwampio maes parcio Pen Isaf Coedlan y Parc.
4. Bydd y gwaith adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol cael gwared ar gyn lleied â phosibl o'r llystyfiant presennol.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Fe'i dosbarthir yn ddatblygiad a ganiateir oherwydd ei aliniad â'r adeiladwaith gwreiddiol.
- Mae'r seilwaith presennol eisoes yn cynnwys Croesfan Twcan sy'n darparu cysylltedd mwy uniongyrchol o gymuned Penparcau (ar hyd Llwybr Rheidol) i Rodfa Plascrug.
- Byddai cael gwared ar y gylchfan rhwng yr ysgol a'r Clwb Rygbi yn creu amgylchedd mwy cyfeillgar i gerddwyr/feicwyr.

## Rhanddeiliaid

1. Dim effaith ar dir yr Ysgol Gynradd.
2. Ardal mynedfa'r Ysgol Gynradd ar Rodfa Plascrug yn parhau. Dim gwelliannau.
3. Y cynllun yn cynnwys sgrin breifatrwydd 2 fetr o uchder fel na ellir edrych dros dir yr Ysgol Gynradd.
4. Yn agosach at diroedd Meithrinfa Camau Bach na'r adeiladwaith presennol. Y maes parcio presennol ar gyfer Meithrinfa Camau Bach i gael ei wella a'i ailwampio.
5. Effaith bosibl ar fynediad i nwyddau i'r Clwb Rygbi. Y grisiau'n estyn i dir y Clwb Rygbi.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Yn agosach at yr Ysgol Gynradd na'r adeiladwaith presennol.

## Y Cynllun

1. Gofod pen cyfyngedig lle mae'r ramp isaf yn mynd o dan y ramp uchaf.
2. Lled llawn o 4 m ar draws yr adeiladwaith. Nid yw'r llwybr 3 m presennol ar y ffordd ddynesu o'r de yn alinio â'r bont 4 m o led arfaethedig.
3. Mae nifer y troeon igam-ogam ar y bont yn ei gwneud yn llai hawdd ei defnyddio, a gallai'r gwelededd cyfyngedig wrth gyffordd deheuol y llwybr effeithio ar ddiogelwch.
4. Gallai'r radiws troi gofynnol ar gyfer beicwyr effeithio ar y pellter rhwng y rampiau a golygu heriau i'r gwaith saernïo.
5. Yn ymddangos fel pont newydd na ellir ei gweld yn hawdd oherwydd ei lleoliad ymysg adeiladau a choed. Gallai'r dyluniad cyfyngedig gyfyngu ar ei photensial i fod yn dirnod.
6. Mae goleuadau wedi'u cynllunio'n dda yn sicrhau bod y bont yn ddiogel, yn groesawgar ac yn hygyrch pan nad yw'r amodau'n olau iawn ac yn ystod y nos.
7. I sicrhau rhagor o ddiogelwch, mae camerâu cylch cyfyng dan ystyriaeth.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Gwelliant o gymharu â'r bont bresennol.

## Adeiladu

1. Gallai cyfleustodau ar linell yr adeiladwaith presennol olygu dargyfeiriadau costus.
2. Mynediad cyfyngedig ar gyfer adeiladu: Gwaith craen yn anodd oherwydd yr adeiladau cyfagos a'r dec trwm. Agosrwydd at amrywiol randdeiliaid yn arwain at ardal waith gyfyng.
3. Gallai cael gwared ar y bont bresennol achosi gwyriadau dros dro, ac efallai y byddai pont dros dro yn ofynnol yn ei lle.

## Gweithredu, Cynnal a Chadw, a'r Gost

1. Lle cyfyngedig ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.
2. Costau sylweddol ynghlwm wrth y gwaith: dymchwel, mynediad dros dro, a gwaith dylunio/adeiladu cymhleth.


### Allwedd i'r Testun

| | |
|---|---|
| gwyrdd | Cyfleoedd ac Effeithiau Cadarnhaol |
| coch | Heriau ac Effeithiau Negyddol |
| oren | Effeithiau sy'n Amodol ar Flaenoriaethau Rhanddeiliaid |

**Ymwadiad – nid oes unrhyw waith dylunio manwl wedi cael ei roi ar waith ar gyfer unrhyw opsiynau a gynigir yn y cyflwyniad hwn.**


© Rural Office 2026

# Opsiwn B
# Golygfa trem aderyn





© Rural Office 2026

# Opsiwn B
# Heriau ac Effeithiau Negyddol


Aiff llwybrau Opsiwn B trwy dir yr ysgol gynradd, gan olygu cysylltiadau teithio llesol newydd sy'n gwella cysylltedd ar draws y dref. Gall y dyluniad hefyd greu gofod amlbwrpas dan y bont ar gyfer yr ysgol, y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau addysgol, hamdden, neu le storio, ac mae iddo hefyd y potensial i wella'r maes chwarae presennol. Er bod yr opsiwn hwn yn darparu rhai manteision gofodol, mae hefyd yn rhannu safle'r ysgol, a all effeithio ar gydlyniant a gweithrediadau dyddiol. I leihau unrhyw darfu, mae'r dyluniad yn rhoi blaenoriaeth i gadw'r mannau chwarae presennol a gwneud defnydd o leoedd parcio staff yn hytrach na gofodau chwarae. Ochr yn ochr â'r opsiwn hwn, cedwir y bont bresennol ar gyfer cerddwyr yn unig (bydd y rampiau'n cael eu tynnu).

Mae'r dudalen hon yn amlinellu'r heriau allweddol a'r effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn.

- Hygyrchedd
- Yr Amgylchynau
- Rhanddeiliaid
- Y Cynllun
- Adeiladu
- Gweithredu, Cynnal a Chadw, a'r Gost

Allwedd ar gyfer llwybrau Teithio Llesol:

- Cerdded a beicio
- Cerdded







© Rural Office 2026


# Opsiwn B
# Dadansoddiad

Mae'r dudalen hon yn dangos golygfeydd o'r bont arfaethedig o Boulevard Saint Brieuc.




1. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o Boulevard Saint Brieuc.





2. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o Feithrinfa Camau Bach ar Boulevard Saint Brieuc.




© Rural Office 2026

# Opsiwn B
# Dadansoddiad

Mae'r dudalen hon yn dangos golygfeydd o'r bont arfaethedig o Rodfa Plascrug.





3. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o Rodfa Plascrug.




© Rural Office 2026

# Opsiwn B
# Dadansoddiad

Mae'r dudalen hon yn dangos golygfeydd o'r bont arfaethedig o dir Ysgol Gynradd Plascrug.




4. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o dir yr ysgol.


© Rural Office 2026

# Opsiwn B
# Meini Prawf

Mae'r dudalen hon yn asesu Opsiwn B yn ôl meini prawf y bont orau posibl i nodi pa ofynion sy'n cael eu bodloni'n llwyr – gan greu cyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol, a pha rai nad ydynt yn cael eu bodloni – gan arwain at heriau ac effeithiau negyddol posibl.

## Hygyrchedd

1. Mae rampiau â graddiant o 1:20 yn sicrhau hygyrchedd i ystod eang o ddefnyddwyr.
2. Llwyfannau gorffwys gwastad bob 10 m ar y rhannau â rampiau.
3. Gallai sawl llwybr mynediad o'r de gymhlethu pethau o ran cael hyd i'r llwybrau Teithio Llesol. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r dyluniad yn gwella cysylltiadau teithio llesol yn Aberystwyth.
4. Mae canllawiau parhaus ar hyd y rampiau a'r grisiau yn gymorth i ddefnyddwyr o bob gallu.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Nid oes mynediad ar ffurf grisiau yn cael ei gynnig ar gyfer y ddynesfa o'r gogledd.
- Mae'r mynediad o'r gogledd yn symud i ffwrdd oddi wrth y llinell a ddymunir.

## Yr Amgylchynau

1. Yn defnyddio tir sy'n eiddo i'r cyngor.
2. Rhaid i waith adeiladu ger ffin Network Rail ganiatáu lle ar gyfer mynediad yn y dyfodol; gallai Network Rail wrthwynebu os bydd yna berygl i ddiogelwch neu fynediad.
3. Cyfle i ailgynllunio maes parcio Pen Isaf Coedlan y Parc i leihau traffig yng nghanol y dref a chefnogi Teithio Llesol cynaliadwy.
4. Bydd y gwaith adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol cael gwared ar rywfaint o'r llystyfiant presennol ar hyd Rhodfa Plascrug, a fydd yn tarfu ar y dirwedd a'r ecoleg leol dros dro.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Bydd croesfan newydd yn debygol o fod yn ofynnol i gysylltu â Llwybr Rheidol.

## Rhanddeiliaid

1. Cyfle i uwchraddio tiroedd yr Ysgol Gynradd ac addasu'r gofod dan y bont ar gyfer dysgu, chwarae neu storio.
2. Mae'r ôl troed yn estyn i dir yr Ysgol Gynradd, sy'n golygu colli oddeutu 700 metr sgwâr o ardal parcio ceir presennol y staff, a rhannu'r safle.
3. Cyfle i adleoli mynedfa'r Ysgol Gynradd i sicrhau pwynt mynediad gwyrddach a mwy diogel, a llai o dagfeydd ar y gylchfan.
4. Y cynllun yn cynnwys sgrin breifatrwydd 2 fetr o uchder i atal defnyddwyr y bont rhag gallu edrych dros dir yr Ysgol Gynradd.
5. Mae yna botensial y bydd y bont yn cyfyngu ar fynediad cerbydau i Feithrinfa Camau Bach. Y maes parcio presennol ar gyfer Meithrinfa Camau Bach i gael ei wella a'i ailwampio.
6. Dim effaith negyddol ar Glwb Rygbi Aberystwyth.

## Y Cynllun

1. Dim cyfyngiadau o ran gofod pen, sy'n sicrhau mynediad diogel i feicwyr.
2. Lled llawn o 4 m ar draws yr adeiladwaith yn sicrhau digonedd o le i bob defnyddiwr, gan annog dewisiadau teithio cynaliadwy.
3. Gallai'r dyluniad caeedig i leihau'r gallu i edrych dros dir yr ysgol wneud i'r adeiladwaith deimlo fel twnnel a bod y golygfeydd yn cael eu gwarchod gormod.
4. Mae nifer y troeon igam-ogam ar ochr ddeheuol y bont yn ei gwneud yn llai hawdd ei defnyddio.
5. Gallai'r radiws troi gofynnol ar gyfer beicwyr effeithio ar y pellter rhwng y rampiau ac achosi heriau i'r gwaith saernïo.
6. Gan fod yr adeiladwaith wedi'i leoli'n amlwg ger y briffordd, mae ei welededd a'i faint yn golygu bod iddo botensial cryf i ddod yn dirnod lleol, yn enwedig os bydd y dyluniad o safon uchel.
7. Mae goleuadau wedi'u cynllunio'n dda yn sicrhau bod y bont yn ddiogel, yn groesawgar, ac yn hygyrch pan nad yw hi'n olau iawn ac yn ystod y nos.
8. I sicrhau rhagor o ddiogelwch, mae camerâu cylch cyfyng dan ystyriaeth.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Mae'r rampiau'n elfen weledol iawn.
- Gwelliannau enfawr o gymharu â'r adeiladwaith presennol.

## Adeiladu

1. Cyn lleied â phosibl o ddargyfeiriadau i gyfleustodau yn ofynnol, gan leihau cymhlethu pethau a tharfu ar y gwasanaethau presennol.
2. Gall mynediad digonol gael ei ddarparu ar gyfer y gwaith adeiladu, a fydd yn sicrhau digon o le i beiriannau, cyfarpar a deunyddiau.
3. Gall y bont droed bresennol ger Meithrinfa Camau Bach aros yn ei lle yn ystod y gwaith adeiladu – ni fydd pont dros dro yn ofynnol yn ei lle.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Bydd y gwaith adeiladu yn tarfu ar dir Ysgol Gynradd Plascrug.

## Gweithredu, Cynnal a Chadw, a'r Gost

1. Digon o le ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.
2. Mae creu lle storio yn y gofod dan ramp gogleddol y bont yn cynyddu'r costau adeiladu.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Bydd mynediad i dir yr ysgol yn ofynnol ar gyfer gwaith cynnal a chadw.
- Dwy bont i'w cynnal a'u cadw yn y dyfodol.
- Bydd dwy bont yn darparu mwy o wydnwch yn y dyfodol, h.y. os bydd gofyn cau un bont ar gyfer gwaith cynnal a chadw dros dro, bydd yr ail bont yn golygu y bydd cerddwyr a beicwyr yn osgoi gwyriad hir.


Allwedd i'r Testun

| | |
|---|---|
| gwyrdd | Cyfleoedd ac Effeithiau Cadarnhaol |
| coch | Heriau ac Effeithiau Negyddol |

**Ymwadiad – nid oes unrhyw waith dylunio manwl wedi cael ei roi ar waith ar gyfer unrhyw opsiynau a gynigir yn y cyflwyniad hwn.**


© Rural Office 2026

# Opsiwn C
# Golygfa trem aderyn





© Rural Office 2026

# Opsiwn C
## Heriau ac Effeithiau Negyddol


Mae Opsiwn C yn mynd trwy dir yr Ysgol Gynradd ar lwybr mwy cymedrol a dolennog, a hwnnw'n darparu cysylltiadau teithio llesol newydd yn y dref ond yn achosi cyn lleied o darfu â phosibl i dir yr ysgol. Yn wahanol i Opsiwn B, mae'n osgoi rhannu'r safle. Mae'r dyluniad yn darparu'r potensial i wella maes chwarae'r Ysgol Gynradd. Er ei fod yn adeiladwaith sylweddol o hyd, mae ei leoliad mewn ardal lai cyfyngedig a'i ddyluniad ysgafnach yn golygu mai hwn yw'r opsiwn symlaf a mwyaf costeffeithiol i'w adeiladu o'r tri. Ochr yn ochr â'r opsiwn hwn, cedwir y bont bresennol ar gyfer cerddwyr yn unig (bydd y rampiau'n cael eu tynnu).

Mae'r dudalen hon yn amlinellu'r heriau allweddol a'r effeithiau negyddol posibl sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn.

- Hygyrchedd
- Yr Amgylchynau
- Rhanddeiliaid
- Y Cynllun
- Adeiladu
- Gweithredu, Cynnal a Chadw, a'r Gost

Allwedd ar gyfer llwybrau Teithio Llesol:

- Cerdded a beicio
- Cerdded







© Rural Office 2026

# Opsiwn C
# Dadansoddiad

Mae'r dudalen hon yn dangos golygfeydd o'r bont arfaethedig o Boulevard Saint Brieuc.




1. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o Boulevard Saint Brieuc.






2. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o Feithrinfa Camau Bach ar Boulevard Saint Brieuc.


© Rural Office 2026

# Opsiwn C
# Dadansoddiad

Mae'r dudalen hon yn dangos golygfeydd o'r bont arfaethedig o Rodfa Plascrug.





3. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o Rodfa Plascrug.




© Rural Office 2026

# Opsiwn C
# Dadansoddiad

Mae'r dudalen hon yn dangos golygfeydd o'r bont arfaethedig o dir Ysgol Gynradd Plascrug.




4. Lleoliad a maint bras y bont arfaethedig o dir yr ysgol.



© Rural Office 2026

# Opsiwn C
# Meini Prawf

Mae'r dudalen hon yn asesu Opsiwn C yn ôl meini prawf y bont orau posibl i nodi pa ofynion sy'n cael eu bodloni'n llwyr – gan greu cyfleoedd ac effeithiau cadarnhaol, a pha rai nad ydynt yn cael eu bodloni – gan arwain at heriau ac effeithiau negyddol posibl.

## Hygyrchedd

1. Mae rampiau â graddiant o 1:20 yn sicrhau hygyrchedd i ystod eang o ddefnyddwyr.
2. Llwyfannau gorffwys gwastad bob 10 m ar y rhannau â ramp.
3. Sawl mynediad o'r de yn golygu y gallai'r llwybrau gymhlethu pethau o ran cael hyd i'r llwybrau Teithio Llesol. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'n gwella cysylltiadau teithio llesol yn Aberystwyth.
4. Mae canllawiau parhaus ar hyd y rampiau a'r grisiau yn gymorth i ddefnyddwyr o bob gallu.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Nid oes mynediad ar ffurf grisiau yn cael ei gynnig ar gyfer y ddynesfa o'r gogledd.
- Mae'r mynediad o'r gogledd yn symud i ffwrdd oddi wrth y llinell a ddymunir.

## Yr Amgylchynau

1. Yn defnyddio tir sy'n eiddo i'r cyngor.
2. Rhaid i waith adeiladu ger ffin Network Rail ganiatáu lle ar gyfer mynediad yn y dyfodol; Gallai Network Rail wrthwynebu os bydd yna berygl i ddiogelwch neu fynediad.
3. Cyfle i ailgynllunio maes parcio Pen Isaf Coedlan y Parc i leihau traffig yng nghanol y dref a chefnogi Teithio Llesol cynaliadwy.
4. Bydd y gwaith adeiladu yn ei gwneud yn ofynnol cael gwared ar rywfaint o'r llystyfiant presennol ar hyd Rhodfa Plas Crug, a fydd yn tarfu ar y dirwedd a'r ecoleg leol dros dro.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Bydd croesfan newydd yn debygol o fod yn ofynnol i gysylltu â Llwybr Rheidol.

## Rhanddeiliaid

1. Cyfle i uwchraddio tiroedd yr Ysgol Gynradd.
2. Mae'r ôl troed yn estyn i dir yr Ysgol Gynradd, sy'n golygu colli oddeutu 370 metr sgwâr oherwydd y rhan â ramp.
3. Cyfle i adleoli mynedfa'r Ysgol Gynradd i sicrhau pwynt mynediad gwyrddach a mwy diogel. a llai o dagfeydd ar y gylchfan.
4. Y cynllun yn cynnwys sgrin breifatrwydd 2 fetr o uchder fel na ellir edrych dros dir yr Ysgol Gynradd.
5. Mae yna botensial y bydd y bont yn cyfyngu ar fynediad cerbydau i Feithrinfa Camau Bach. Y maes parcio presennol ar gyfer Meithrinfa Camau Bach i gael ei wella a'i ailwampio.
6. Dim effaith negyddol ar Glwb Rygbi Aberystwyth.

## Y Cynllun

1. Dim cyfyngiadau o ran gofod pen, gan sicrhau mynediad diogel i feicwyr.
2. Lled llawn o 4 m ar draws yr adeiladwaith yn sicrhau digonedd o le i bob defnyddiwr, gan annog dewisiadau teithio cynaliadwy.
3. Cynllun diogel ac ystyriol sy'n hyrwyddo symudiad greddfol.
4. Gallai'r radiws troi gofynnol ar gyfer beicwyr effeithio ar y pellter rhwng y rampiau a golygu heriau i'r gwaith saernio.
5. Gan fod yr adeiladwaith wedi'i leoli'n amlwg ger y brifford, mae ei weledd a'i faint yn golygu bod iddo botensial cryf i ddod yn dirnod lleol, yn enwedig os bydd y dyluniad o safon uchel.
6. Mae goleuadau wedi'u cynllunio'n dda yn sicrhau bod y bont yn ddiogel, yn groesawgar, ac yn hygyrch pan nad yw'r amodau'n olau iawn ac yn ystod y nos.
7. I sicrhau rhagor o ddiogelwch, mae camerâu cylch cyfyng dan ystyriaeth.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Mae'r rampiau'n elfen weledol iawn.
- Gwelliannau enfawr o gymharu â'r adeiladwaith presennol.

## Adeiladu

1. Cyn lleied â phosibl o ddargyfeiriadau i gyfleustodau yn ofynnol, gan leihau cymhlethu pethau a tharfu ar y gwasanaethau presennol.
2. Gellir darparu mynediad digonol ar gyfer y gwaith adeiladu, gan sicrhau digon o le i beiriannau, cyfarpar a deunyddiau.
3. Gall y bont droed bresennol gerllaw Meithrinfa Camau Bach aros yn ei lle yn ystod y gwaith adeiladu - ni fydd pont dros dro yn ofynnol yn ei lle.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Bydd y gwaith adeiladu yn tarfu ar dir Ysgol Gynradd Plascrug.

## Gweithredu, Cynnal a Chadw, a'r Gost

1. Digon o le ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.
2. Mae dyluniad symlach ar dir agored yn golygu y bydd y gwaith adeiladu'n rhatach.

Ystyriaethau ychwanegol:

- Mynediad i dir yr ysgol yn ofynnol ar gyfer gwaith cynnal a chadw.
- Dwy bont i'w cynnal a'u cadw yn y dyfodol.
- Bydd dwy bont yn darparu mwy o wydnwch yn y dyfodol, h.y. os bydd gofyn cau un bont ar gyfer gwaith cynnal a chadw dros dro, bydd yr ail bont yn golygu y bydd cerddwyr a beicwyr yn osgoi gwyriad hir.


Allwedd i'r Testun

| | |
|---|---|
| gwyrdd | Cyfleoedd ac Effeithiau Cadarnhaol |
| coch | Heriau ac Effeithiau Negyddol |

**Ymwadiad – nid oes unrhyw waith dylunio manwl wedi cael ei roi ar waith ar gyfer unrhyw opsiynau a gynigir yn y cyflwyniad hwn.**



© Rural Office 2026

# Pob Opsiwn
# Crynodeb




Opsiwn A

Mae Opsiwn A yn disodli'r bont bresennol, gan wella'r llwybrau teithio llesol yn y lleoliad presennol trwy godi adeiladwaith newydd ac iddo ddec ehangach. Mae yna heriau adeiladu sylweddol i'r opsiwn hwn oherwydd y mynediad cyfyngedig a chymhlethdod y gwaith o adeiladu a chynnal pont deithio lesol fawr mewn safle cyfyngedig.



Opsiwn B

Aiff llwybrau Opsiwn B trwy dir yr ysgol gynradd, gan olygu cysylltiadau teithio llesol newydd sy'n gwella cysylltedd ar draws y dref. Gall y dyluniad hefyd greu gofod amlbwrpas dan y bont ar gyfer yr ysgol, y gellid ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau addysgol, hamdden, neu le storio, ac mae iddo'r potensial i wella'r maes chwarae presennol. Er bod yr opsiwn hwn yn darparu rhai manteision gofodol, mae hefyd yn rhannu safle'r ysgol, a all effeithio ar gydlyniant a gweithrediadau dyddiol. I leihau unrhyw darfu, mae'r dyluniad yn rhoi blaenoriaeth i gadw'r mannau chwarae presennol a gwneud defnydd o leoedd parcio staff yn hytrach na gofodau chwarae. Ochr yn ochr â'r opsiwn hwn, cedwir y bont bresennol ar gyfer cerddwyr yn unig (bydd y rampiau'n cael eu tynnu).



Opsiwn C

Mae Opsiwn C yn mynd trwy dir yr Ysgol Gynradd ar lwybr mwy cymedrol a dolennog, a hwnnw'n darparu cysylltiadau teithio llesol newydd yn y dref ond yn achosi cyn lleied o darfu â phosibl i dir yr ysgol. Yn wahanol i Opsiwn B, mae'n osgoi rhannu'r safle. Mae'r dyluniad yn darparu'r potensial i wella maes chwarae'r Ysgol Gynradd. Er ei fod yn adeiladwaith sylweddol o hyd, mae ei leoliad mewn ardal lai cyfyngedig a'i ddyluniad ysgafnach yn golygu mai hwn yw'r opsiwn symlaf a mwyaf costeffeithiol i'w adeiladu o'r tri. Ochr yn ochr â'r opsiwn hwn, cedwir y bont bresennol ar gyfer cerddwyr yn unig (bydd y rampiau'n cael eu tynnu).

## Diolch i chi — Cofiwch lenwi'r holiadur


© Rural Office 2026